

5. DIRYWIAD AC ADFYWIAD MODERN Y CELTIAID

Erbyn 1750 câi'r holl Geltiaid eu tra-arglwyddiaethu yn uniongyrchol un ai gan y Saeson neu'r Ffrancwyr, ac o ganlyniad i hyn dechreuodd y siaradwyr adael eu hieithoedd am un ai'r Saesneg neu'r Ffrangeg (yn wir roedd y Gernyweg eisoes wedi darfod erbyn hyn hyd yn oed os goroesodd ambell un o'i siaradwyr hyd at ddiwedd y 18G). Mae hanes y Celtiaid ar ôl 1750 yn hanes o ddirywiad yr ieithoedd hyn hyd at eu tranc mewn sawl achos, er y dechreuwyd herio'r cilio hwn gan adfywiad a ddaeth i'r fei yn gyntaf yn niwedd y 19G. Nid nod y modiwl hwn yw astudio'n fanwl y newid ieithyddol a chymdeithasol hwn o faintioli daeargrynfaol, er hynny prin y gellir deall y cymdeithasu Celtaidd yn y cyfnod modern drwy anwybyddu'r sefyllfa ieithyddol ar unrhyw adeg benodol. Yn hytrach, bydd y rhan hon yn rhoi pwyslais ar ddatblygiadau hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol y gwledydd Celtaidd gwahanol yn y cyfnod hwn, gan fynd ati i ystyried yr ystrydebau cyffredin sydd ynghlwm â phob gwlad o'u cymharu â'r realiti (fel y gwyddom ni amdano).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- ELLIS, Peter Berresford. 2002. *Celtic Dawn: the Dream of Celtic Unity*. (Talybont: Y Lolfa). (Argraffiad 1af 1993).
- HARVEY, David C. & JONES, Rhys & MCINROY, Neil & MILLIGAN, Christine (goln). *Celtic Geographies: Old Culture, New Times*. (London: Routledge).
- Ó NÉILL, Diarmuid (gol.). 2004. *Rebuilding the Celtic Languages: Reversing Language Shift in the Celtic Countries*. (Talybont: Y Lolfa).
- ROBB, John G. 'A geography of Celtic appropriations'. Yn David C. Harvey & Rhys Jones & Neil McInroy & Christine Milligan (goln). *Celtic Geographies: Old Culture, New Times*. (London: Routledge), 229–42.
- TANNER, Marcus. 2004. *The Last of the Celts*. (New Haven: Yale University Press).
- WMFFRE, Iwan. 2004. 'Learners, native speakers and the authenticity of language'. Yn Ullrich Kockel & Máiréad Nic Craith (goln). *Communicating Cultures*. (Münster: Lit), 149–75.
- WMFFRE, Iwan. 2006. 'Ideology and the learning of Celtic languages'. Yn Fabio Mugnaini & Pádraig Ó Héalaí & Tok Thompson (goln). *The Past in the Present: a Multidisciplinary Approach*. (Catania: Gol.It), 235–57.

Adnoddau ar y We

- 'Celtic Congress'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Celtic_Congress >
- 'Celtic Film Festival'. Yn < www.celticfilm.co.uk/index.php?node_id=1.9.11 >
- 'Celtic League'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Celtic_League_%28political_organisation%29 >
- 'Pan-Celticism'. Yn < <http://en.wikipedia.org/wiki/Pan-Celticism> >

5.1 YR ALBAN AC UCHELDIR YR ALBAN (18G hyd at heddiw)

Fel y dywedwyd uchod, parhaodd pobl Ucheldir yr Alban ar y cyfan yn geidwadol o ran crefydd ac yn y 18G roedd sawl ardal yn dal yn driw i Esgobwriaeth (yn enwedig gogledd Argyll) neu hyd yn oed i Gatholigiaeth (coridor canolog a redai o Ynysoedd y Gorllewin i Moray, gan gynnwys Barra, Moidart, Morar). Roedd trechu'r llwythi Jacobaidd yn 1746 yn ergyd drom i Gatholigiaeth, serch hynny roedd yr Esgob Catholig MacDonald, er ei fod wedi'i ddedfrydu i alltudiaeth, yn byw yn ddistaw yn Glengarry. Parhaodd y colegau diwinyddol mewn amryw o lefydd yn yr Ucheldiroedd cyn uno â Choleg Blairs ger Aberdeen yn 1829. Erbyn hynny roedd Catholigiaeth wedi hen beidio â bod yn boendod gwleidyddol i'r awdurdodau. Roedd yr ardaloedd hynny lle cafwyd gweithgarwch cenhadol yn y 17G yn parhau i fod yn Gatholig yn yr 20G.

Dim ond yng nghyffiniau'r Ynys Ddu/*Black Isle* ger Inverness y sefydlodd Presbyteriaeth yn gynnwys ymysg yr Ucheldirwyr, er ei bod yn ddominyddol yn Iseldiroedd yr Alban. Gan ofni llwyddiant Cenhadon Catholig a dychwelyd at Rufain a Jacobiniaeth, dechreuwyd ar yr ymgyrch i 'bresbytereiddio' yr Ucheldiroedd ac ardaloedd 'anwar' eraill y wlad yn yr 18G gyda chymorth y Gymdeithas Er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol yn yr Alban (SSPCK, sefydlwyd 1709). Polisi'r SSPCK ar y dechrau oedd seisnigo'r Gaeliaid ond yn ddiweddarach daethant i gefnogi addysg drwy gyfrwng yr Aeleg. Cyhoeddodd eirfa Gaeleg-Saesneg yn y 1740au a goruchwylio cyfieithu'r Testament Newydd 1767 (gyda'r wyneb-ddalen yng Ngaeleg a Saesneg) a daeth yr eirfa hon yn rhagflaenydd safon Gaeleg Albanaidd y cwblhawyd ei Beibl yn 1801. Roedd eu hysgolion hwy yn ychwanegol at rai Eglwys yr Alban ac yn 1808 roedd 189 ohonynt oedd â 13,000 o ddisgyblion, a thrwy ohebiaeth â Thomas Charles, y Methodist Calfinaidd Cymraeg, sefydlwyd Cymdeithas Caeredin i Gefnogi Ysgolion Gaeleg yn 1811, ac erbyn 1828 roedd ganddynt 85 o ysgolion yn yr Ucheldiroedd (er y cafwyd dirywiad mewn blynyddoedd wedi hynny). Megis yng Nghymru, roedd hybu darllen y Beibl yn yr iaith frodorol wedi arwain at nifer uchel o bobl lythrennog ac arweiniodd hyn yn ei dro at ddiwydiant cyhoeddi bywiog yn yr Aeleg yn ystod y 19G – o'r cyfnodolyn cyntaf *An Teachdaire Gaelach* (1829-31) i argraffiadau llyfrau o fwy na chant am bob degawd o'r 19G.

Er bod rheolaeth Bresbyteraidd wedi ennill yn Eglwys swyddogol yr Alban yn 1689, peryglwyd ysbryd Presbyteriaeth wedi hynny gan ddeddf nawdd 1712 a oedd yn caniatáu tirfeddiannwr cyfoethog i enwi periglor clerigol i'w swydd yn erbyn dymuniadau'r plwyf. Nid oedd y Cynulliad Cyffredinol yn fodlon iawn â'r datblygiad hwn ond fe'i llesteiriwyd gan gorff cryf o 'Moderates' nad oedd am wrthdaro â'r wladwriaeth. Yn 1834 cymerodd mwyafrif o Efengylwyr awenau'r Cynulliad Cyffredinol, gan fynd ati i ddadlau yn erbyn enwebiadau'r noddwyr, cafwyd achosion llys ac o weld nad oedd y wladwriaeth am ddiwygio, gadawodd 450

o weinidogion yr Eglwys yn ystod Rhwyg 1843 a sefydlu Eglwys Rydd yr Alban. Cafodd yr Eglwys Rydd deyrngarwch llwyr gweinidogion yn yr Ucheldiroedd bron â bod, a daeth yr Eglwys, megis Anghydfurfwyr Cymru, yn hyrwyddwyr y bobl yn erbyn landlordiaid creulon. Er hynny, bu rhwyg yn yr Eglwys Rydd ei hun yn 1893 pan arweiniodd ymlacio athrawiaeth at sefydlu Eglwys Bresbyteraidd Rydd yr Alban (Free Presbyterian Church of Scotland, neu'r 'Wee Frees' ar lafar), ac unwaith eto roedd wedi'i lleoli yn bennaf yn yr Ucheldiroedd yn Lewis a Harris (nodwedd o'i hathrawiaeth oedd na chât emynau eu canu, dim ond salmau). Dywedir mai'r Eglwys Bresbyteraidd Rydd yw'r enwad mwyaf Ucheldirol a mwyaf piwritanaidd o holl enwadau'r Alban (ymffrostiai gweinidog a fu farw yn 1993 iddo foddi ei facbib ar ôl 'darganfod' Crist). Yn sgil ymlacio athrawiaeth a mwyfwy o ryddfrydiaeth yn yr Eglwys Rydd, cafodd ei huno yn 1900, ychydig o flynyddoedd ar ôl y rhwyg, ag enwad rhyddfrydol Anghydfurfiol arall, sef Eglwys Bresbyteraidd Unedig yr Alban (United Presbyterian Church of Scotland) gan sefydlu Eglwys Rydd Unedig yr Alban, ac yn ei dro dychwelodd yr enwad hwn i Eglwys yr Alban yn 1929. Mae hanes cymhleth i dadogaethau crefyddol Ucheldir yr Alban, gyda chyfnodau o rwygiadau chwerw, ac mae hyn wedi golygu fod teyrngarwch crefyddol bobl yr Ucheldir wedi'i rannu rhwng pedwar prif enwad, sef yr Eglwys Bresbyteraidd Rydd, Eglwys yr Alban, yr Esgobaethwyr a'r Catholigion. Hyd yn oed heddiw lle mae'r Aeleg ar ei chryfaf yn Ynysoedd y Gorllewin, mae'r iseldiroedd wedi'u rhannu rhwng canghennau mwyaf gwrthwynebol yr Eglwys o ran athrawiaeth: y Catholigion a'r Presbyteriaid Rhydd ('Wee Frees') nad ydynt heb ragfarn wedi cydweithredu wrth feithrin yr iaith, er nad yw'r sectyddiaeth erioed wedi ffrwydro mewn trais fel sy'n nodweddiadol o Ogledd Iwerddon.

Y tu hwnt i faterion crefyddol, roedd yr Ucheldiroedd – yn y cyfnod yn dilyn gorchfygu Culloden yn 1746 (heblaw am gyfnod byr o reolaeth filwrol) – yn awr yn atebol i'r gyfraith oedd yn gyffredin i weddill yr Alban. Un o'r rhesymau yr ymlaciwyd y rheol filwrol honno oedd oherwydd i'r Ucheldirwyr fod yn recriwtiaid gwych i Fyddin Prydain yn ei rhyfeloedd trefedigaethol ac enillasant enw i'w hunain mewn sawl brwydr (i raddau oherwydd i Gadfridog Wolfe gipio Québec yn feiddgar yn 1760 gan roi diwedd ar rym Ffrainc yng Ngogledd America). Roedd hwn yn gyfnod pan ddatblygwyd economi'r Ucheldiroedd drwy gyflwyno ffermydd defaid, a hynny'n broffidiol i'r tîrfeddianwyr ond yn drychinebus i nifer o'r tenantiaid gan iddynt gael eu gorfodi i adleoli i ardaloedd pellennig ar yr arfordir (lle gallai casglu gwymon a physgota ychwanegu at adnoddau prin y tir), neu hyd yn oed yn gorfod ymfudo. Dyma ddechrau cyfnod y clirio a'r ymadael a arweiniodd at ddadl chwerw rhwng dehongliadau 'trefedigaethol' ac 'economaidd' (gweler Hunter 2000). Ymfudodd cryn nifer o'r Ucheldirwyr i'r rhanbarth diwydiannol oedd yn datblygu yng nghanolbarth yr Alban, ac ymunodd y dynion â'r fyddin a mynd i drefedigaethau Ymerodraeth Prydain oedd wrthi'n ehangu. Yn ystod y cyfnod hwn, yn

enwedig ar ôl y 1770au, y sefydlwyd trefedigaethau gweddol fawr o Ucheldirwyr yng Ngogledd Carolina, Dyffryn Mohawk (Efrog Newydd) (yn ddiweddarach i Glengarry Township, Ontario), Nova Scotia ac Ynys Tywysog Edward. Denodd y fasnach ffwr yng ngogledd-orllewin Canada nifer o'r Ucheldirwyr hefyd, cynifer yn wir nes cododd creoliaith o'r enw Bungee ym Manitoba erbyn y 19G, iaith gymysg yn seiliedig ar fratiaith a siaredid rhwng merched Cri brodorol Amerindiaid a'r masnachwyr ffwr o Ucheldiroedd yr Alban. Erbyn diwedd y 18G disgrifid yr Aeleg fel trydedd iaith Canada ar ôl Saesneg a Ffrangeg. Parhaodd yr Aeleg yn fywiog yn hir yng Ngogledd Carolina ond yn enwedig yn Nova Scotia, a chyhoeddwyd llyfrau a chyfnodolion yno (a datblygodd darllenwyr ar draws yr Iwerydd). Yn yr Ucheldiroedd, yn sgil y tlodi economaidd newydd, byddai'r landlordiaid yn troi'r boblogaeth allan ar raddfa eang, ac yn aml yn greulon. Erbyn canol y 19G daeth ystadau hela ceirw yn rheswm arall dros droi pobl o'u tai a daeth nifer o gymoedd ar y tir mawr yn ddiffaith ac yn wag wrth i'r ymfudo barhau. Wedi'u hysbrydoli gan Gynghrair Tir Iwerddon (*Irish Land League*, sefydlwyd 1879) a Deddf Tir Iwerddon Gladstone (1881), dechreuodd Gaeliaid yr Alban – oedd wedi bod yn oddefgar ers dros ganrif – drefnu eu hunain i frwydro dros eu hawliau ac yn dilyn digwyddiadau megis y 'Battle of the Braes' yn Skye (1881), ffurfiwyd Cynghrair Tir yr Ucheldiroedd (*Highland Land League*). Ymatebodd y Llywodraeth drwy basio'r Ddeddf Tyddynnod yn 1883 a ddiogelodd lawer – ond nid y cyfan – o hawliau i ffermwyr bychain oedd yn denantiaid (*crofters*) yn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Hyd heddiw, dylanwadir yn gryf ar dirddaliadaeth gan ddarpariaethau'r ddeddf hon yn siroedd cadw tyddynnod (*crofting*) gorllewin a gogledd yr Alban.

Yr un pryd â'r dirywiad ym mhoblogaeth yr Ucheldiroedd, a barhaodd ymhell i ganol yr 20G, cafwyd mwyfwy o ymwneud â siaradwyr Saesneg. Yn 1750 siaredid yr Aeleg drwy'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, ac amcangyfrifwyd y siaredid hi gan 23% o boblogaeth yr Alban, ond roedd y canran hwn wedi gostwng i amcangyfrif o 19% erbyn 1800 ac erbyn y cyfrifiad cyntaf oedd â chwestiwn iaith ynddo roedd wedi gostwng ymhellach i 6% (roedd y gostyngiad ymddangosiadol hwn, er hynny, i'w briodoli i dwf cyflym y boblogaeth yn yr Alban ddiwydiannol gan fod cyfanswm y siaradwyr Gaeleg yn 1801 yn 298,000 ac yn 1881 roedd yn dal yn 231,000). Serch hynny, erbyn dechrau'r 20G roedd dirywiad ar droed ac ychwanegodd y seisnigo at erydiad ddadboblogi'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd. Syrthiodd canran y siaradwyr o 5% yn 1901, i 3.5% yn 1921, i 1.5% yn 1961. Ers hynny mae nifer a chanran y siaradwyr Gaeleg wedi tueddu i sadio, er bod adroddiadau o lithriad ieithyddol ar Ynysoedd y Gorllewin ers y 1980au.

Ystyrid Gaeliaid yr Ucheldir yn egsoftig ers eu portread rhamantaidd yng nghyfansoddiadau barddonol Osianaidd James Macpherson o 1760-62 ac yn fwy felly yn nofelau 'Waverley' Walter Scott o 1814 a'i ragdrefniadau ef ar y pasiantri i ddathlu ymweliad Brenin Siôr IV â Chaeredin yn 1822 pan berswadiodd y brenin i wisgo cilt tartan gan ddechrau ffasiwn sydd wedi gwanhau

erbyn heddiw. Eto, mae Gaeliaid yr Ucheldiroedd erioed wedi bod yn bobl yr ymylon yn yr Alban, cymaint felly nad yw cyflwr a thrafferthion eu hiaith erioed wedi bod yn astell ganolog yng nghŵynion cenedlaetholdeb Albanaidd yr 20G. Er mai nod honedig y cenedlaetholdeb hwn yw cael chwarae teg i bobl yr Ucheldir a'r Iseldir fel ei gilydd gan lywodraeth Lloegr yn Llundain, eto mae'n wastad wedi pwysleisio enillion economaidd annibyniaeth ac nid yw erioed wedi dychmygu adfywiad Celtaidd oedd mor nodweddiadol o genedlaetholdeb Gwyddelig o'r 1890au ymlaen. Deilliodd y cenedlaetholdeb Albanaidd sydd ohoni o'r Gymdeithas Genedlaethol er Amddiffyn Hawliau'r Alban (National Association for the Vindication of Scottish Rights) – cymdeithas ddigon ceidwadol a sefydlwyd yn 1853. Dilynwyd hwn yn 1885 gan Gymdeithas Ymreolaeth yr Alban (Scottish Home Rule Association); mudiad o fewn y Blaid Ryddfrydol a ysbrydolwyd gan fudiadau tebyg yn Iwerddon a Chymru. Roedd gan y ddau fudiad hyn ddiddordeb mewn datganoli yn hytrach nag annibyniaeth, ond yn y 1920au daeth grwpiau cenedlaetholgar mwy radicalaidd i'r fei, sef Cyngghair Genedlaethol yr Albanwyr (Scots National League, 1920), Mudiad Cenedlaethol yr Alban (Scottish National Movement, 1926), Mudiad Cenedlaetholwyr Albanaidd Prifysgol Glasgow (Glasgow University Scottish Nationalist Organisation, 1927), Plaid Genedlaethol yr Alban (1928) a Phlaid yr Alban (Scottish Party, 1932). Cyfunodd y ddau ddiwethaf i ffurfio Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP) yn 1934. Chwaraeodd rhai cenedlaetholwyr unigol – Hugh Mac Diarmid yn eu plith – â'r syniad o adfer gorffennol Celtaidd ond ni ddaeth syniadau o'r fath erioed yn ganolog i lwyddiant cenedlaetholdeb yr Alban.

Llwyddodd yr SNP i ennill ei sedd seneddol gyntaf ym maestref Motherwell o Glasgow am rai wythnosau yn 1945 cyn i etholiad cyffredinol ethol AS Llafur. Am beth amser wedyn, ni lwyddodd yr SNP ond i gael proffil mewn gwleidyddiaeth leol yn y trefi llai mewn ardaloedd gwledig, hyd at 1967 pan ddymchwelodd Winifred Ewing fwyafrif Llafur enfawr yn Hamilton, maestref arall o Glasgow a gwelwyd ton o gefnogwyr ledled yr Alban. Yn wahanol i lwyddiannau ei gyfoeswr yng Nghymru, Plaid Cymru, ac er gwaethaf y ffaith ei fod yn bleidiol i'r Aeleg mewn egwyddor, roedd protest yr SNP yn ymwneud â materion economaidd oedd yn effeithio ar lawer o'r Alban, yn hytrach na'r gwahaniaeth diwylliannol oedd yn rhan gynhenid o'r Gaeliaid. Trodd y llanw yn fuan ac yn 1970 methodd yr SNP â thorri drwodd wrth i Ewing golli ei sedd. Serch hynny, yn y trychineb a gafodd yr SNP yn 1970, etholodd cadarnle'r Gaeliaid ar Ynysoedd y Gorllewin yr ail AS SNP (Donald Stewart) sef yr unig Aelod Seneddol SNP am rai blynyddoedd. Cafwyd llwyddiannau i'r SNP yng ngweddill yr Alban yn isetholiad 1973 (Glasgow Govan) ac – yn dilyn yr hwb o ddarganfod olew ym Môr y Gogledd – yn nau etholiad cyffredinol 1974 pan etholwyd un ar ddeg o aelodau seneddol yn ogystal â 30% o gyfanswm y pleidleisiau. Ymddangosai'r SNP fel petaent mewn safle addawol iawn yn enwedig ar ôl 1976 pan gollodd llywodraeth Llafur Prydain ei fwyafrif seneddol.

But, incredibly, it all collapsed. Many Scots feared the SNP. Few outwith its ranks wanted an independent Scotland. Some thought it tainted with Fascism: though it always eschewed violence and xenophobia, certain fervent figures could easily whip up an SNP conference into something resembling a Nuremberg rally. (Rather unfairly, many Nationalists found themselves under intrusive surveillance of the Special Branch, MI5 and other arms of the ‘secret state’.)

Roedd y datganoli a gynigwyd yn 1979 i'r Alban a Chymru (ar amod ennill refferendwm) yn llwgrwobr i ddylanwad gwleidyddol cynyddol pleidiau cenedlaetholgar Celtaidd Prydain gan lywodraeth Lafur, llywodraeth oedd fwyfwy dan warchae. Gwanychwyd y mesurau datganoli gwreiddiol ac yn yr Alban diystyrwyd y mwyafrif oedd wedi pleidleisio dros ddatganoli oherwydd manylyn technegol (roedd amodau gweithredu datganoli wedi mynnu mwyafrif y pleidleiswyr yn hytrach na mwyafrif y pleidleisiau er gwaethaf y ffaith fod mynd mewn i'r Undeb Ewropeaidd rai blynyddoedd yn gynt wedi'i dderbyn ar ganran lai). Yn y senedd, cyflwynodd Donald Stewart gynnig o ddiffyg hyder, ac fe'i dilynwyd yn hyn gan Margaret Thatcher o'r blaid Geidwadol, a'r canlyniad oedd galw am etholiad cyffredinol ac yn yr etholiad hwnnw ysgubwyd llywodraeth Lafur o rym a lleihawyd Aelodau Seneddol y SNP o 11 i 2. Yn 1987 yn yr isetholiad a ddaeth yn sgil ymddeoliad Stewart, adenillodd Llafur Ynysoedd y Gorllewin (er bod Ewing wedi sefydlu'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd yn etholaeth Ewropeaidd oedd yn faenoriaeth bersonol iddi ei hun). Fe gymerodd gryn amser i'r SNP ddod at eu hunain, gan ennill isetholiad yma ac acw ac yn gwneud yn well yn yr etholiadau Ewropeaidd nag yn rhai Prydain, erbyn 1996 roeddynt wedi cyrraedd 4 AS. Yn ôl Macleod (1996): "If Scotland ever won independence, it seemed the SNP would be a catalyst, rather than a true national movement that would sweep the land". Tybiwyd fod gan lywodraeth y Ceidwadwyr feddylfryd 'Lloegr fach' am yr Alban, ac yn ystod ei theyrnasiad 18-mllynedd atgyfnerthwyd y farn gyhoeddus yn yr Alban bod gofyn am ddatganoli i'w gwarchod rhag Llywodraeth Lloegr nad oedd yn poeni fawr ddim am gyrion etholiadol yr Alban. Ailetholwyd llywodraeth Lafur newydd yn 1997, a chan eu bod yn ymwybodol o siom gynyddol etholwyr yr Alban â gwleidyddiaeth Seisnig San Steffan, a chan hefyd yn rhannol ymlynu ag eiriolaeth yr arweinydd Llafur byrhoedlog John Smith dros ddatganoli, cadwasant at eu haddewid adeg yr etholiad i gael refferendwm newydd i'r Alban a Chymru ac yn dilyn pleidlais 'ie' gan fwyafrif llethol, sefydlwyd Senedd yr Alban yn 1999.

Er bod ymdeimlad cenedlaetholgar Albanaidd ar y llwyfan gwleidyddol wedi dod i'r fei ers y 1960au, prin yr adlewyrchwyd hyn yn y gefnogaeth wleidyddol i'r Aeleg, a dim ond ers sefydlu Senedd yr Alban y mae hyn wedi newid, yn sgil mesurau megis Deddf yr Iaith Aeleg (2005). Ers blynyddoedd, sianelwyd gweithredu dros yr Aeleg i feysydd diwylliannol o dan *An Comunn Gàidhealach* (sefydlwyd 1893), ond yn niwedd y 1980au cododd grŵp hollt o'r enw *Comunn nan Gaidheal* (CNAG) ac roedd hwn yn fwy milwrol yn ei alwad am fwy o gydnabyddiaeth i'r Aeleg

a buont yn llwyddiannus gydag ymgyrch deledu. Gwelir y pellter rhwng y Gaeliaid a mwyafrif poblogaeth yr Alban yn ninasoedd megis Glasgow, Caeredin ac Aberdeen yng ngeiriau'r Athro Donald Meek (brodor o Tíre, a aned yn 1949) a ysgrifennodd yn 2002:

Being Scottish is not something that I often think about. Being Scottish and feeling proud of it, as Scots are supposed to do, is for me an even rarer sentiment. / For me Scottishness has been an acquired concept, initially as remote and as inaccessible as those peaks [of the Scottish mainland]. In my Hebridean boyhood, I was first and foremost Gaelic, brought up on an island croft, where cows and sheep and humans and the Gaelic language lived in happy harmony. Even the dogs barked in Gaelic, and understood no English. Scotland was some place far away in a big, blue school-book. I reasoned that those mountains on the hazy eastern skyline must belong to Scotland. / Scotland became for me a land of other, more menacing, mountains. As I ventured beyond the safe confines of the Gaelic-speaking areas, I found acceptability and animosity towards my native language in almost equal measure. It was my joy to study and teach the language and its culture, and my great sorrow to encounter tokenism, trivialisation and sometimes sheer disparagement. The Scotland that so often growled at England, and expressed the pain of being a repressed nation, could show its internal animosities in fine style, and give surprisingly little place to its own indigenous treasures.

O ystyried pa mor fach y daeth poblogaeth yr Ucheldiroedd yn yr 20G, nid yw'n syndod na chododd fawr o brotestio gwleidyddol penodol oedd yn ymwneud â'r Ucheldiroedd o'i gymharu â gweddill Alban. Prin yr oedd unigolion megis Sorley Maclean (1911–96) a'i frawd Calum (1915–60) yn gynrychioladol o natur diachwyn Gaeliaid modern ynghylch eu treftadaeth ddiwylliannol. Dim ond yn gynnar yn y 1980au y cododd mudiad protest o'r enw Ceartas ('Cyfiawnder') – wedi'u hysbrydoli gan Gymdeithas yr Iaith yng Nghymru – a dechreuasant beintio arwyddion wedi'u seisnigo. Yn fwy nodweddiadol o weithredu dros yr iaith oedd yr ŵyl Aeleg ddiwylliannol deithiol a gynhelir yn flynyddol, sef y Mod Brenhinol Cenedlaethol (sefydlwyd yn 1892, *Am Mòd Nàiseanta Rìoghail*). Gŵyl o ganu, celf a diwylliant yw hon, wedi'i hysbrydoli gan yr eisteddfod yng Nghymru ac wedi'i chynnal yn flynyddol ers ei hymddangosiad cyntaf yn Oban (cyfeirir ati yn gellweirus fel 'Gêmau Olympaidd Wisgi') ac ychwanegir ati gan nifer o môdau lleol.

Yn draddodiadol, roedd cadarnleoedd olaf yr Aeleg ar Ynysoedd y Gorllewin wedi'u rhannu ers canrifoedd rhwng Swydd Ross a Swydd Inverness, a'u canolfannau gweinyddol ymhell i'r dwyrain yn Dingwall ac Inverness oedd wedi'u hen seisnigo. Yn sgil adrefnu llywodraeth leol yn 1975 daeth Ynysoedd y Gorllewin yn awdurdod rhanbarthol o dan yr enw *Comhairle nan Eilean* ac roedd ganddi bolisi iaith lled gadarnhaol tuag at yr Aeleg. Nid oedd yr awdurdod newydd yn un cyfan gwbl gyfforddus, roedd ynysoedd deheuol Barra a South Uist yn Gatholig tra bod North Uist, Harris a Lewis yn gadarnleoedd y Protestaniaid Calfinaidd Presbyteriaidd mwyaf llym. Roedd pobl yr ynysoedd deheuol yn fwy cyfarwydd ag Oban a Glasgow nag â Stornoway, y ganolfan weinyddol oedd wedi'i lleoli yn Lewis. Gosododd yr awdurdod newydd gyfleusterau

cyfieithu ar y pryd er mwyn rhoi modd defnyddio'r Aeleg yng nghyfarfodydd y cyngor, a rhoddwyd arwyddion ffyrdd newydd yn lle'r holl enwau lleoedd wedi'u seisnigo i ddangos y fersiynau Gaeleg (yn ôl Macleod (1996) "such things are, really, for the benefit of visitors, they bewildered many a tourist."). Yn niwedd y 1980au llwyddodd Sabathyddion Lewis i roi pwysau ar y cyngor i wahardd gwaith ar ddydd Sul – symudiad nad oedd wrth fodd yr ynysoedd pabyddol, ac fe'u cynddeiriogwyd ymhellach pan gaewyd nifer o ysgolion ar eu hynysoedd oni bai am yr un ar Lewis. Er dicter mawr yr offeiriaid lleol trafodwyd symud ysbyty Daliburgh – gyda'i gapel Catholig a'i furluniau mawr o'r Forwyn Fair – i ysbyty newydd mwy canolog yn Benbecula, ond gorchfygwyd grŵp gweithredu'r offeiriaid yn llwyr mewn etholiad lleol yn 1994. Atseiniodd methdaliad y BBCI yn 1991 yn gryf ar hyd Ynysoedd y Gorllewin gan i *Comhairle nan Eilean* golli £22 miliwn (wedi'i fenthg o lywodraeth Swyddfa'r Alban, oedd yn arfer anghyfreithlon). Cyflwynodd Comhairle nan Eilean bolisi addysg 'dwyieithog' mewn ysgolion cynradd ar ôl 1975, ond ymddengys iddo fod yn fethiant. Yn 1986 dechreuwyd ar fath o addysg gyfan gwbl drwy gyfrwng yr Aeleg yn Breasclete, ac arweiniodd ei lwyddiant at addysg drwy gyfrwng yr Aeleg yn ymledu drwy'r Ucheldiroedd a hyd yn oed mewn rhai achosion i ddinasoedd yr Iseldir. Yn 1978, dilynodd Skye gan weithredu polisi dwyieithog yn yr ysgolion. Rhaid sôn hefyd am goleg Gaeleg Sabhal Mòr Ostaig ar Ynys Skye a ddechreuodd gyrsiau llawn-amser yn 1983 gan orffen ei gynllun gradd cyntaf yn 2003. Yn ardaloedd trefol Glasgow, Caeredin, Aberdeen ac Inverness, ymhell o fröydd yr Aeleg yn y gorllewin, bu galw mewn blynyddoedd diweddar gan rai rhieni i gael ysgolion drwy gyfrwng yr Aeleg. Yn 2006, roedd yr unig ysgol uwchradd gyntaf drwy gyfrwng yr Aeleg, sef Sgoil Ghàidhlig Ghlaschu, yn Glasgow.

Roedd radio Gaeleg yn bodoli cyn canol y 1970au pan drosglwyddodd y BBC ei holl allbwn Gaeleg yn sydyn i VHF (er nad oedd gan lawer o ardaloedd yr Ucheldiroedd VHF). Yn sgil pwysau o du'r CNAG, sefydlodd y llywodraeth y Comataibh Telebhisean Gàidhlig (CTG) yn 1992 ac iddi gyllideb o £9 miliwn, ac o fewn rhai blynyddoedd cafwyd rhaglenni Gaeleg o safon uchel ar BBC Scotland, Scottish Teledu a Grampian. Wrth sôn am gynnydd ymddangosiadol Gaeleg yr Alban a'r Wyddeleg, dywedodd Ken MacKinnon, cymdeithasegwr Gaeleg yr Alban, mewn cynhadledd yn 1998:

We may have the media, we may have the arts, we may have the broadcasting, we may have education going forward and developing, we may even have secure [legal] status. But if there is not an actual community of speakers, and if there is not an oncoming generation, this will be merely an overcoat around an invisible man. There will be a lot of quite impressive outer garments and if they are revealed, nothing inside.

Llyfryddiaeth Ddethol
(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- CREGEEN, Eric R. 1998. 'Oral tradition and history in a Hebridean island'. Yn *Scottish Studies* 32.12–35.
- EDWARDS, John. 1990. 'Gaelic in Nova Scotia'. Yn Colin H. Williams (gol.). *Linguistic Minorities: Society and Territory*. (Clevedon: Multilingual Matters), 269–97.
- *FRY, Michael. 2005. *Wild Scots: Four Hundred Years of Highland History*. (London: Murray). (Penodau 7–20).
- HARVIE, Christopher & JONES, Peter. 2001. *The Road to Home Rule: Images of Scotland's Cause*. (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- HUNTER, James. 2000. *The Making of the Crofting Community*. (Edinburgh: Donald). (arg 1af 1976).
- LYNCH, Peter. 2002. *SNP: the History of the Scottish National Party*. (Cardiff: Welsh Academic Press).
- MACDONALD, Sharon. 1997. *Reimagining Culture: Histories, identities and the Gaelic Renaissance*. (Oxford: Berg).
- MACINNES, Allan I. 1990 'Evangelical Protestantism in the nineteenth-century Highlands'. Yn Graham Walker & Tom Gallagher (goln) *Sermons and Battle Hymns: Protestant Popular Culture in Modern Scotland* (Edinburgh: Edinburgh University Press), 43–68.
- MACINNES, John. 1989. 'The Gaelic perception of the Lowlands'. Yn Williams Gillies (gol.) *Gaelic and Scotland / Alba agus a' Ghàidhlig*. (Edinburgh: Edinburgh University Press), 89–100.
- *MACLEOD, John. 1996. *Highlanders: a History of the Gaels*. (London: Hodder & Stoughton). (Penodau 1, 7–12)

Adnoddau ar y We

- 'The Clann' recreation society. Yn < www.the-clann.co.uk/home.htm >
- 'Scottish independence'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Scottish_independence >
- 5.2 YNYS MANAW (13G hyd at heddiw)

Er bod Ynys Manaw wedi ildio'n ffurfiol i'r Alban yn 1266, roedd rhyfeloedd yr Alban ag Edward I o Loegr ar ôl hynny yn golygu bod yr ynys wedi symud yn ôl ac ymlaen rhwng y Saeson a'r Albanwyr hyd nes 1333 pan sefydlwyd sofraniaeth Lloegr ar Ynys Manaw (er y gwnaed hynny ar ffurf grant i Iarll Salisbury a ddaeth yn Frenin Ynys Manaw). Yn 1405 rhoddwyd Ynys Manaw i Syr John Stanley o Gilgwri (*Wirral*), Swydd Gaerlleon, gan frenin Lloegr a rheolodd ef a'i ddisgynyddion – hefyd Ieirll Derby ar ôl 1486 – Ynys Manaw fel arglwyddi absennol teyrnas lled-annibynnol (tan 1505) ac yna fel arglwyddiaeth lled-annibynnol hyd at 1736 (roedd tâl bychan o ddau gudyll glas i'w roi i bob brenin Lloegr ar eu hesgyniad). Y Stanleys oedd y teulu o dirfeddianwyr mwyaf pwerus yng ngogledd-orllewin Lloegr ac roedd eu diddordeb yn Ynys Manaw yn amrywio, a rhai ohonynt heb hyd yn oed roi troed ar yr ynys.

Câi'r esgeuluso seciwlar hwn ei adlewyrchu o ran Eglwys Ynys Manaw, yn y 16G roedd esgobaeth Ynysoedd Manaw a Sodor yn wag neu yn nwylo esgob absennol. Roedd dau esgob o Gymru, John Meyrick o deulu Bodorgan Môn (rh.1576-99) a John Phillips (rh.1605-33), yn gyfrifol am gryfhau trefniadaeth yr Eglwys ym Manaw, a dysgodd John Phillips yr iaith Fanaweg hyd yn oed er mwyn gallu pregethu ynddi a hefyd i lunio *Llyfr Gweddi Cyffredin* 'Mynawaidd'

(ys dywedai ef) yn 1610. Nid argraffwyd y llawysgrif hon erioed yn ystod ei fywyd oherwydd gwrthwynebiad ystyfnig gan glerigwyr Ynys Manaw oedd wedi arfer cyfieithu gweddïau a llithoedd yn fyrfyr wrth addoli'n gyhoeddus. Cyhoeddwyd fersiwn Manaweg o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin* yn y pen draw yn 1765 (yn wir pan gyhoeddwyd fersiwn Phillips yn 1895, disgrifiodd un o'i olygyddion y cyfieithiad fel un syml ac uniongyrchol, ac "for the most part, easily understood by those who speak Manx at the present day"). Gweithiai Phillips gyda chynorthwydd Manaweg i gyfieithu'r Beibl. Nid yw pa lenyddiaeth bynnag a ysgrifennwyd ym Manaweg cyn ei amser ef wedi'i drosglwyddo i ni, er ei bod yn bosibl y defnyddiwyd traddodiad o sillafu dan ddylanwad y Saesneg fel y ceid mewn rhannau o'r Alban. Credir bod Phillips yn gyfrifol am gyfundrefnu'r Fanaweg seisnigedig hon a'i gwella gydag o leiaf un arfer, sef y llythyren <y> ar gyfer y sain llafariad dywyll leddf ac felly Manaweg *Yn Ghaelg* 'Gaeleg (Manaw)' mewn gwrthgyferbyniad â'r Wyddeleg gyfoes *An Ghaedhealg* 'Gaeleg (Iwerddon)'. Er ei fod yntau wedi dysgu peth Manaweg yn ystod ei deyrnasiad hir, hyrwyddodd yr Esgob Thomas Wilson (rh.1697-1755), ledaeniad y Saesneg. Dan ei nawdd ef cyhoeddwyd y llyfr cyntaf ym Manaweg yn 1699, catecism Manaweg o'r enw *The Principles and Duties of Christianity*, gyda'r Fanaweg a'r Saesneg ochr yn ochr er mwyn hybu dysgu Saesneg. Sicrhodd ef fod rhannau o'r Beibl wedi'u cyfieithu i'r Fanaweg ac o dan ei olynydd cwblhawyd cyfieithu'r Beibl Manaweg yn 1775.

Llwyddodd James Stanley, seithfed Iarll Derby (sef *Yn Stanlagh Mooar* 'y Stanley Mawr' i'r Manawiaid) i gael Ynys Manaw yn rhan o ryfeloedd cartref Lloegr ar ochr y brenhinwyr, gan wneud yr ynys yn ganolfan i ymgyrchoedd milwrol ar ôl 1645. Er hynny, yn sgil trethu trwm ar ei ddeiliaid er mwyn ariannu'r rhyfel, cafwyd gwrthryfel William Christian (*Illiam Dhone* 'Brown William') yn 1651 yn erbyn gwraig yr Iarll ar ôl i'w gŵr adael i ymuno â Siarl II. Ildiodd ef yr ynys i gynrychiolwyr Cromwell a llwyddodd i fod yn llywodraethwr am gyfnod. Yn fuan ar ôl yr Ailorseddu a Stanley wedi dychwelyd i arglwyddiaeth Manaw, fe'i dienyddwyd am deyrnfradwriaeth (gan ei fod cymryd yn gamarweiniol fod y Ddeddf Digollediad yn berthnasol i Ynys Manaw yn ogystal â Lloegr). Mae William Christian yn parhau i fod yn destun dathliad cenedlaetholgar a dadlau parhaus ar Ynys Manaw. Yn 1736 bu farw'r Stanley olaf heb etifedd a throsglwyddwyd Manaw i Ddug Atholl; gwerthodd ei etifedd ef ei hawliau sofran i Goron Lloegr yn 1766, a chan i hyn fod yn ergyd drom i'r fasnach 'smyglo' buddiol, oedd wedi ffynnu ers y 17G, fe'i cofir yn Ynys Manaw fel *Yn Chialg Mooar* ('y twyll mawr'). Roedd llawer o Fanawiaid yn forwyr a throdd rai at herwlongwra. Cyrhaeddodd Methodistiaeth Wesleidd Ynys Manaw yn y 1770au ac, ynghyd â'r Fethodistiaeth Gyntefig ddiweddarach, cynyddodd ei niferoedd hyd nes ennill teyrngarwch tua 40% o boblogaeth Ynys Manaw. Ers 1766 torrwyd ar natur ar wahân Ynys Manaw drwy gyfnodau o Saeson yn mewnfudo o Sir Gaerhirfryn, yn ogystal â chyfnodau o ymfudo allan. Dechreuodd twristiaeth o dir mawr Prydain ddod yn boblogaidd yn y 1830au a

daeth Ynys Manaw i gael cysylltiadau agos â phorthladd pwysig Lerpwl ac i'r fan honno yr ymfudodd llawer o Fanawiaid (disgynnydd yr alltudiaeth Fanawaidd hon oedd y Celtegydd yng Nghaergrawnt Edmund Quiggin (†1920) a fagwyd yn Swydd Stafford, ac yr oedd ei fam yn siaradwr Manaweg brodorol; hefyd ganed a magwyd George Broderick, un o arbenigwyr enwocaf y Fanaweg, yng Nghilgwri [Wirral]).

Y Tynwald (M. *Tinvaal*) oedd olynydd senedd Lychlynnaidd teyrnas annibynnol Ynys Manaw (oedd yn debyg o ran tarddiad i sefydliadau o enwau tebyg a fodolai yn Ynysoedd Ffaeröe a Gwlad yr Îa) ond drwy ran helaethaf diwedd yr Oesoedd Canol roedd yn gorff cyfreithiol ymgynghorol ar gyfer rheolwyr Ynys Manaw. Pan ddaeth Dugiaid Atholl yn lle'r teulu Stanley, llwyddodd y Tynwald i gael feto ar drethu, er mai dim ond am genhedlaeth y parhaodd hyn. Yn sgil rhagdybiaeth o reolaeth uniongyrchol gan lywodraeth Lloegr yn 1766, lleihaodd gwir bwerau'r Tynwald, ac er gwaethaf trefnu deisebau i gael mwy o ran mewn llywodraeth fe'i cysgodwyd gan bwerau'r Is-lywodraethwyr. Yn 1866 cynhaliwyd etholiadau iawn ar gyfer y swydd yn y Tynwald a rhoddwyd rhywfaint o ddatganoli (ymreolaeth) iddo. Collodd ei bwerau barnwrol ar yr adeg hon ond parhaodd i fod yn gynulliad deddfu. Rhennir Tynwald rhwng is Dŷ'r Allweddi a'r uwch Gyngor Deddfwriaethol (er eu bod weithiau yn eistedd gyda'i gilydd). Ar ddechrau'r 20G daeth Tŷ'r Allweddi yn elfen ddominyddol yn y Tynwald. Roedd economi Ynys Manaw yn farwaidd, a phan ildiodd Llywodraeth Prydain pob rheolaeth dros gyllid yr ynys yn 1958, rhoddodd hyn fodd i Dŷ'r Allweddi ddileu gordrethi yn 1962 – ar anogaeth dyn busnes – ac yna cytunwyd ar berthynas arbennig rhwng Ynys Manaw a'r Undeb Ewropeaidd yn 1971-72. Gan fod pŵer yr is-lywodraethwr wedi gwanychu, bellach yn swyddogaeth seremonïol yn bennaf, llwyddwyd i'w dynnu o lywodraeth weithredol yn 1980 ac wedi hynny atgyfnerthwyd system weinidogol yn gyfraith yn 1986. Sefydlwyd plaid genedlaethol Manaw, sef Mec Vannin, yn 1962, ac roedd am gael annibyniaeth i Ynys Manaw gan ennill un sedd yn etholiad 1976, er i'r ymgeisydd Peter Craine yn ddiweddarach ymuno â Phlaid Genedlaethol Manaw a dorrodd yn rhydd am gyfnod byr, gan fodoli rhwng 1977 a 1981. Mae Mec Vannin wedi bod yn hynod feirniadol o'r ffaith fod llywodraethau rheoli Ynys Manaw wedi anelu yn unig am gael statws economaidd lloches rhag treth ar gyfer yr ynys, ond newidiodd yr agwedd hon yn araf. Sybsideiddiodd llywodraeth Ynys Manaw gyhoeddi *Dictionary of Manx* gan Douglas Faragher yn 1979 ac yn 1992 cyflwynwyd Manaweg yn bwnc dewisol yn yr ysgol (cadarnhawyd hyn a chyflwyno hanes Ynys Manaw yn bynciau dewisol ym mhob ysgol yn Neddf Addysg 2001).

Hyd at y 1840au parhâi'r Fanaweg i fod yn brif iaith yr ynys y tu allan i Douglas a'r prif drefi, ond wedi hynny o fewn cenhedlaeth bu llithriad ieithyddol tuag at y Saesneg nes erbyn 1880 ni châi unrhyw rai o blant yr ynys eu magu yn Fanaweg. Gan eu bod yn ymwybodol o ddirywiad yr iaith, sefydlodd rhai o'r Manawiaid 'Yn Cheshaght Ghailckagh' (sef Cymdeithas yr Iaith

Fanaweg) yn 1899 i'w chadw, gan hyrwyddo'r iaith a'i chyfnodolyn *Mannin*. Roedd y bobl frwdfrydig yn astudwyr llên-gwerin gymaint ag yr oeddynt yn ddiwygwyr ac roeddynt yn cynnwys Arthur William Moore, Charles Roeder, Sophia Morrison, J. J. Kneen a Mona Douglas. Dysgodd y diwygwyr cynnar eu Manaweg gan siaradwyr brodorol megis Edward Faragher (†1908). Bu farw'r siaradwr brodorol olaf, Ned Maddrell, o bentref gwledig Cregneash ym mhen deheuol yr ynys yn 1974 (fe'i ganwyd yn 1877 ac roedd wedi dysgu'r Fanaweg gan ei hen-fodryb a oedd wedi'i fagu). Ymwelodd prif weinidog Iwerddon Éamonn de Valera â'r ynys gan alw i weld Ned yn bersonol, ac yn ddiweddarach gyrrodd dîm o Gomisiwn Llên Gwerin Iwerddon mewn fan a addaswyd yn arbennig i recordio'r siaradwyr brodorol olaf. Bellach nid oes unrhyw siaradwyr brodorol y Fanaweg ar ôl, ond yn wahanol i'r Gernyweg, ceir nifer o ddysgwyr rhugl sydd wedi meistroli'r Fanaweg drwy'r siaradwyr brodorol ac mae recordiadau o'r siaradwyr olaf ar gael (er bod dadl yn parhau ynghylch pa rai o'r siaradwyr 'amherffaith' hyn a gyflwynai'r Fanaweg 'bur').

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- BELCHEM, John (gol.). 2000. *A New History of the Isle of Man Volume 5 The Modern Period 1830–1999*. (Liverpool: Liverpool University Press).
- CALLOW, Edward. 1899. *From King Orry to Queen Victoria: a Short and Concise History of the Isle of Man*. (London: Stock).
- KERMODE, David G. 1979. *Devolution at Work: a Case Study of the Isle of Man*. (Farnborough: Saxon House).
- KERMODE, David G. 2001. *Offshore Island Politics: the Constitutional and Political Development of the Isle of Man in the Twentieth Century*. (Liverpool: Liverpool University Press).
- KINVIG, Robert Henry. 1975. *The Isle of Man: a Social, Cultural and Political History*. (Liverpool: Liverpool University Press).
- *STOWELL, Brian & Ó BREASLÁIN, Diarmuid. 1996. *A Short History of the Manx Language*. (Belfast: An Clochán).

Adnoddau ar y We

- 'Centre for Manx Studies'. Yn < <http://dbweb.liv.ac.uk/manninagh/default.htm> >
- MADDRELL, Breesha. 2006 'Of demolition and reconstruction: a comparative reading of Manx cultural revivals' yn *E-Keltoi: Journal of Interdisciplinary Celtic Studies* 2, 133–63.
Yn < www.uwm.edu/Dept/celtic/ekeltoi/volumes/vol2/2_4/maddrell_2_4.html >
- MADDRELL, Breesha. 200?. 'The Isle of Man'.
Yn < www.oxforddnb.com/public/themes/92/92737.html >.
- 'Manx culture'. Yn < <http://www.gov.im/tourism/culture/welcome.xml> >
- 'Mec Vannin'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Mec_Vannin >

5.3 IWERDDON (y 17G tan nawr)

Ystyrir yr ieirll yn ffoi o Ulster yn 1607 (*the Flight of the Earls*) yn ddiwedd rhamantaidd i'r Gaeliaid yn Iwerddon, ond er ei fod yn garreg filltir, roedd y Gwyddelod brodorol wedi peidio â bod yn annibynnol rai blynyddoedd cyn hynny pan ddaeth y Rhyfel Naw Mlynedd i ben yn 1603. Cynyddodd y cipio ar diroedd Catholigaidd ledled Iwerddon, proses a gyflymwyd gan derfysgoedd 1641-50 yn Iwerddon (y '*Cromwellian confiscations*') a Rhyfel y Ddau Frenin yn 1690-91 (y '*Williamite confiscations*'). Aeth tiroedd dan berchnogaeth Catholigion o 90% yn 1603 i 59% yn 1641, i 22% yn 1685, i 14% yn 1704, ac i 5% yn 1778. Erbyn y 18G roedd y dosbarth llywodraethol ran amlaf o lawer yn siarad Saesneg ac yn Brotestaniaid tra oedd y mwyafrif y gwahaniaethid yn eu herbryn yn amlach na pheidio yn siarad Gwyddeleg ac yn Gatholigion.

Gwir arwyddocâd diflaniad rheolwyr brodorol mwyaf pwerus Ulster yw ei fod wedi rhoi modd i roi un o'r cynlluniau trefedigaethu mwyaf, sef Ulster, ar waith yn 1608. Hynodrwydd y drefedigaeth hon yw ei fod wedi llwyddo i newid wyneb dynol gogledd Iwerddon yn barhaol, oherwydd ers y 17G bu i ymsefydlwyr o Loegr a'r Alban, y cyfan ohonynt yn Brotestaniaid bron, gymryd drosodd beth o diroedd mwyaf ffrwythlon Ulster a sefydlu sawl ardal oedd yn Lloegr fach neu'n Alban fach yn y gogledd. Roedd y brenin o'r Alban, Iago VI a esgynnodd i orsedd Lloegr yn 1603 o blaid hunaniaeth Brydeinig a allai uno'r Saeson a'r Albanwyr (hunaniaeth oedd o reidrwydd yn Brotestannaidd). Ffurfiodd disgynyddion yr ymsefydlwyr hyn y 'Protestant Ulstermen', ac oherwydd eu hanes y rhain yw arddelwyr mwyaf tanbaid hunaniaeth Brydeinig y dyddiau hyn.

Er bod system Seisnig o lywodraeth a ffafriai siaradwyr Saesneg a Phrotestaniaid wedi'i sefydlu ledled Iwerddon, nid oedd y Gwyddelod brodorol yn cadw'n dawel o bell ffordd. Roedd aelodau'r dosbarth uchaf yn chwerw ynghylch atafaelu eiddo yn y gorffennol ac yn ofni rhagor yn y dyfodol (gwyrdrowyd Cyfraith Lloegr i atafaelu tiroedd oddi wrthynt – er enghraifft er mwyn cael teitl a gydnabyddid yn swyddogol i'w tiroedd, roedd yn rhaid i dirfeddianwyr Gwyddelig ildio traean o'u tir i'r llywodraeth). Câl'r drwgdeimlad hwn ei rannu hefyd gan denantiaid tlotach, yn enwedig pan fo newid mewn perchnogaeth yn eu gorfodi i symud o diroedd ffrwythlon i rai llai gwerthfawr. Yn wir roedd y cam-lywodraethu, boed yn wir neu'n ymddangosiadol, gan y goruchafwyr Protestannaidd newydd (yn weinyddwyr a thirfeddianwyr) hefyd wedi effeithio ar yr Hen Saeson, sef y Saeson hynny oedd yn hanu o ymsefydlwyr Seisnig Iwerddon yr Oesoedd Canol, ac a oedd wedi'u lleoli'n bennaf yn ardal Pale yng nghyffiniau Dulyn. Roedd y rhain ar y cyfan wedi parhau i fod yn Gatholig ar yr un pryd â cheisio cadw ffyddlondeb gwleidyddol i reolwyr Protestannaidd Lloegr. Roedd y cam-drin o du'r weinyddiaeth ganolog wedi'u gwthio hwythau i wrthryfela yn 1641 gan gefnogi Gwyddelod brodorol Ulster. Yn wir gwrthryfel 1641

a Chynghrair (Catholig) Kilkenny wedyn yn 1642-49 a reolai'r rhan fwyaf o Iwerddon yn enw'r brenin ond hefyd yn enw rhyddid Iwerddon, oedd y tro cyntaf y codwyd uwchlaw'r rhaniadau ethnig rhwng Saeson a Gwyddelod Iwerddon. Roedd y rhain oll bellach – beth bynnag fo'u hiaith – wedi derbyn eu hunaniaeth fel Gwyddelod (yn yr Wyddeleg mae'r derminoleg am yr hunaniaethau ethnig hyn oedd yn esblygu yn gwneud hyn oll yn gliriach, yn hytrach na *Gael* 'Gwyddel (brodorol)' yn erbyn *Gall* 'estron, Sais', bellach fe'u gelwid yn *Eireannach* 'Gwyddel'). Yn hytrach na bod yn unedig oherwydd iaith, roedd byddino ethnig bellach wedi'i ysgogi gan deyrngarwch crefyddol, a dyma darddiad 'Cenedl Gatholig' Iwerddon. Yn ogystal ag esgeulustod Llywodraeth Lloegr, anogwyd uniad yr hen rwygiadau ethnig yn rhagweithiol gan y Gwrthddiwygiad Catholig hefyd. Ers dechrau'r 17G roedd colegau offeiriadol ledled y Cyfandir – yn enwedig Louvain sydd heddiw yng ngwlad Belg – wedi dod â Chatholigion Gwyddelig o gefndiroedd amrywiol at ei gilydd, ac, wedi'u hysbrydoli gan genedlaetholdeb, dechreuwyd ar brosiectau i gyhoeddi geiriaduron Gwyddeleg, hanes Iwerddon a bucheddau seintiau'r wlad. Gwaith cyfoes nodedig oedd *Foras Feasa ar Éirinn* ('Ffynhonnell Gwybodaeth yn ymwneud ag Iwerddon') a gwblhawyd tua 1634 gan yr offeiriad Geoffrey Keating o dras Hen Saeson Swydd Tipperary. Ni chyhoeddwyd llawer o'r gweithiau hyn, ac ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd bod gwaharddiad ar gyhoeddi gwaith o'r fath yn Iwerddon ei hun yn ogystal â'r ffaith fod yr Wyddeleg yn dechrau colli'i statws vis-à-vis y Saesneg. Heblaw am yr anfanteision cyfreithiol a roddwyd yn awr ar yr Wyddeleg, roedd hefyd y rheswm economaidd: rhoddwyd mantais ymarferol i'r Saesneg dros yr Wyddeleg yn sgil sefydlu'r rhwydwaith o drefi ledled cefn gwlad Iwerddon yn ogystal â chryfhau'r fasnach trawsiwerydd – roedd Iwerddon yn sefyll rhwng Lloegr a'r trefedigaethau oedd yn prysur dyfu yn America. Ac felly cododd y paradocs sydd wedi nodweddu Iwerddon ers hynny: parhâi'r Gwyddelod yn benderfynol wrth-seisnig yn wleidyddol ar yr un pryd â dod yn fwyfwy Seisnig mewn iaith a diwylliant. Erbyn diwedd y 17G yn ystod Rhyfel y Ddau Frenin (Brwydr Boyne, Cytundeb Limerick) nid oedd y gwahaniaeth ethnig rhwng y Gwyddelod brodorol a'r Hen Saeson bellach yn wleidyddol berthnasol.

Y 18G oedd uchafbwynt yr Oruchafiaeth Brotestannaidd Seisnig a dyma pryd y ffurfiodd y Gwyddelod brodorol, gyda rhai eithriadau, isddosbarth na sylwyd arnynt gan lawer o haneswyr diweddarach ('Iwerddon Gudd' enwog Daniel Corkery). Ffynnai'r economi a thyfodd canolfannau trefol Dulyn a Cork yn anferthol ac roedd Belfast wedi dechrau tyfu hefyd. Serch hynny, ymddengys fod mwy o helyntion yn digwydd, ac roedd y rhain yn cynnwys ysbeilio a lladrata, anniddigrwydd ymysg y dosbarth gwledig, cymdeithasau cyfrinachol (*tories*, *raparees* yn y 17G, *Houghers* 1710au, *Whiteboys* 1760-80au, *Rightboys* 1780au, Rhubanwyr ar ddechrau'r 19G). Yng ngogledd Iwerddon roedd y cymdeithasau cyfrinachol hyn yn rhan o helyntion sectyddol: *Peep-o'-day Boys* Protestannaidd yn erbyn yr Amddiffynwyr Catholig yn Swydd

Armagh yn y 1780au (roedd Urdd yr Orenwyr [*Orange Order*] masonaidd yn sgil-ffaith i'r Peep-o'-day Boys ac mae wedi parhau i gael dylanwad mawr ar ddigwyddiadau sectyddol yng ngogledd Iwerddon hyd heddiw). Roedd cymdeithasau cyfrinachol treisgar o'r fath yn gyffredin ac yn rhagflaenwyr i Frawdoliaeth Gweriniaethol Iwerddon (Irish Republican Brotherhood/IRB, a adwaenid yn fwy poblogaidd fel y Ffeniaid) a'r mudiad hwn yn rhagflaenydd i genedlaetholdeb grym corfforol Byddin Gweriniaethol Iwerddon (Irish Republican Army/IRA) yn yr 20G. Ymddengys fod cynifer o gymdeithasau o'r fath yn cynnig rhyw fath o degwch i sectorau cyfan o boblogaeth Iwerddon, pobl y gwrthodwyd iddynt lawer o hawliau cyfreithiol pwysig o dan yr Oruchafiaeth Brotestannaidd a orfodwyd ar Iwerddon yn y 18G. At hynny roedd y cof hanesyddol o ddadfeddiannu yn yr 17G wedi bwydo ymwybyddiaeth wleidyddol wahanol iawn i lawer o'r gwledydd eraill lle roedd y profiad o seisnigo neu ffrengigo yn esblygiad graddol yn hytrach na gorfodaeth sydyn.

Dechreuodd yr Wyddeleg golli tir yn ddaearyddol yn y 18G gyda'r Saesneg arglwyddiaethol yn cymryd ei lle, gan ymledu i'r gorllewin o ddau ganolbwynt – Dulyn yn y de a Belfast yn y gogledd. Erbyn canol y 19G ni chât'r Wyddeleg ei siarad fel rheol ond i'r gorllewin o linell a gysylltai Waterford yn y de hyd at Derry yn y gogledd. Roedd Newyn Mawr 1845–49 yn ergyd arall i'r ardaloedd oedd yn weddill yn y gorllewin, ac erbyn diwedd y 19G dim ond 15% o'r boblogaeth oedd yn siarad Gwyddeleg. Mae'n baradocs fod yr Wyddeleg wedi cwmpo dan draed y Saesneg yn ystod y 19G, sef cyfnod a welodd ddatblygu cenedlaetholdeb Gwyddelig modern. Bu i Daniel O'Connell, y 'Gwaredwr', ac arwr poblogaidd a lwyddodd i sicrhau hawliau cyfartal i Gatholigion yn 1829, wftio'r Wyddeleg gan ddweud yn hysbys nad oedd gwerth iddi, er ei fod ef ei hun yn ei siarad. Yn wir, ers diwedd y 18G dim ond rhan ymylol yr oedd gan siaradwyr Gwyddeleg yng ngwleidyddiaeth Iwerddon gan olygu mai siaradwyr Saesneg ar y cyfan oedd yn flaenllaw, gyda rhai eithriadau. O'r herwydd, gweithredodd gan ddynion neu fudiadau Saesneg eu hiaith oedd uchafbwyntiau gwladgarol neu genedlaetholgar y wlad (megis llunio Senedd Grattan 1782–97, terfysgoedd yr 'United Irishmen' yn 1798, terfysgoedd Emmett yn 1803, a rhai 'Young Ireland' yn 1848, ymosodiadau y Ffeniaid yn America yn 1866–67, creu gwleidyddiaeth Hunanlywodraeth Iwerddon ar ôl 1870, ac un Sinn Féin yn 1905, Gwrthryfel Pasg 1916, Rhyfel Annibyniaeth 1919–21 a Rhyfel Cartref 1921–23), gyda'r aelodau hynny o boblogaeth Iwerddon oedd yn dal yn siarad Gwyddeleg i'w cael yn bennaf ar yr ymylon hyd yn oed os oeddynt ar adegau wedi'u cefnogi gan genedlaetholwyr Gwyddelig. Ar ryw drobwynt yn y 18G, peidiodd siaradwyr yr Wyddeleg fod yn gynrychioladol o boblogaeth Iwerddon, ffaith sy'n cael ei bwrw i'r cysgod gan y syniadaethau cenedlaetholgar Gwyddelig wedi hynny, gan eu bod ers 1798 wedi codi'r iaith i statws symbolaidd i atgyfnerthu hawl Gwyddelod Saesneg eu hiaith i hawlio cenedligrwydd i'w hunain sy'n wahanol i un Prydain Saesneg ei hiaith.

Mae hanes modern poblogaeth sy'n siarad Gwyddeleg yn dechrau yn niwedd y 19G ar ôl y Newyn Mawr trychinebus ac yna'r tranc a fyddai bron yn sicr yn digwydd i'r iaith yn ôl bron yr holl sylwedyddion yn y cyfnod. Dechreuad adfywiad yr Wyddeleg gyda David Comyn a sefydlu'r Gymdeithas er Diogelu'r Wyddeleg (Society for the Preservation of the Irish Language/S PIL) yn Nulyn yn 1876. Cyhoeddai'r Gymdeithas lyfrau ac erbyn 1884 cyhoeddodd hefyd gyfnodolyn dwyieithog cyntaf yr Wyddeleg sef *The Gaelic Journal / Irisleabhar na Gaedhilge*. Ymgyrchai'r Gymdeithas i gael cydnabyddiaeth i'r Wyddeleg yn y system addysg ac yn 1878 llwyddodd i gael yr Wyddeleg yn bwnc allgyrsiol (o dan y teitl 'Celtaidd'). Yn baradocsaid efallai, roedd symud ymlaen yn anos pan ddeuai'n fater o berswadio rhieni a siaradai'r Wyddeleg i fynnu bod yr Wyddeleg yn cael ei dysgu. Yn 1880 ymrannodd cymdeithas fwy milwrol o'r enw Undeb yr Wyddeleg o'r SPIL. Sefydlodd Michael Cusack y gymdeithas chwaraeon brodorol hynod o lwyddiannus, sef y Gaelic Athletic Association (GAA) yn 1884 gan sicrhau fod Gwyddelod yn cadw at chwaraeon brodorol megis pêl-droed Gaelaidd a chwarae hyrli yn hytrach na chwaraeon oedd wedi dod o Loegr (fel y byddai gweddill y byd yn y man), ac roedd Michael Cusack ei hun wedi ei ysbrydoli gan Undeb yr Wyddeleg gan weithredu a hybu defnyddio'r Wyddeleg yn ei weithgareddau. Yn sgil darlith hynod ddylanwadol a draddodwyd gan Douglas Hyde yn 1892 'On the necessity for de-anglicising Ireland', sefydlwyd Cynghrair yr Wyddeleg (Gw. *Connradh na Gaedhilge*) yn 1893 gan ddisodli'r mudiadau blaenorol. O dan arweinyddiaeth ddeinamig (Hyde, Mac Néill), blodeuodd Cynghrair yr Wyddeleg yn fudiad torfol oedd â mwy na 964 o ganghennau ledled Iwerddon yn 1905. Addysgai'r Gynghrair yr Wyddeleg fel iaith ysgrifenedig, a hyrwyddai gerddoriaeth a dawnsiau Gwyddelig (*céilís*) i genhedlaeth gynyddol o genedlaetholwyr a oedd yn ddiweddarach i gael annibyniaeth. Er mai mudiad trefol oedd hwn yn wreiddiol (nid oedd yn enwedig o gryf yn y rhanbarthau oedd yn dal i siarad Gwyddeleg), llwyddodd ei ddefnydd o athrawon oedd yn teithio i'r ardaloedd hyn i hyrwyddo llythrennedd ymysg siaradwyr brodorol anllythrennog y gorllewin. Roedd gwyliau lleol (*féis*) a drefnwyd yn rhai Gwyddeleg eu hiaith ac ymfalchïwyd yn fawr ynddynt, a rhwng 1904 a 1909 sefydlwyd chwe choleg haf yn yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith (bellach wedi'u hailfedyddio – drwy adfer hen air – yn 'Gaeldir' Gaeltacht). Sefydlwyd gŵyl genedlaethol flynyddol, ar batrwm yr eisteddfod Gymraeg ac fe'i gelwid yn An tOireachtas ('y Cynulliad'). Cyhoeddwyd dau bapur *An Fáinne* a *An Claidheamh Soluis* gan y Gynghrair Wyddeleg. Erbyn 1900 roedd brwdfrydedd y Gynghrair Wyddeleg dros yr iaith wedi dwyn perswâd ar lawer o'r mudiad cenedlaetholgar Gwyddelig, megis *The Leader* dylanwadol D. P. Moran a phlaidd genedlaetholgar Arthur Griffith, sef Sinn Féin (sefydlwyd 1905). Llwyddodd Cynghrair yr Wyddeleg i gael cydnabyddiaeth i'r Wyddeleg fel cyfrwng dysgu yn yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith yn 1904 ac fel pwnc matriciwleiddio ym Mhrifysgol Genedlaethol Iwerddon yn 1913. Hwb i lwyddiant y Gynghrair i hybu'r Wyddeleg ymysg cenedlaetholwyr Gwyddelig

oedd yr ymchwydd o deimladau cenedlaetholgar Gwyddelig ar y pryd, ond canlyneb hyn oedd i genedlaetholwyr chwyldroadol ymdreiddio i'r Gynghrair, megis Brawdoliaeth Weriniaethol Iwerddon (IRB) a Sinn Féin a'i defnyddiodd fel lifer gwleidyddol. Roedd y llywydd, Hyde, wedi'i siomi a'i ddigalonni gymaint gan y datblygiadau hyn o fynd yn erbyn natur anwleidyddol/disectyddol y mudiad yr oedd wedi'i feithrin, nes yr ymddiswyddodd yn 1915. Er hynny, croesawai aelodau eraill y Gynghrair ei gwleidyddoli, yn bennaf Pádraig Pearse a fyddai'n arweinydd y gwrthryfel aflwyddiannus yn 1916.

Roedd Cynghrair yr Wyddeleg yn fudiad adfywio iaith oedd yn anarferol o ddylanwadol, a phan sefydlwyd gwladwriaeth annibynnol Iwerddon yn 1922, polisïau'r Gynghrair a roddwyd ar waith, gyda'r Wyddeleg yn dod yn bwnc gorfodol mewn ysgolion ac ar arwyddion dwyieithog. Rhoddwyd peth cymorth ariannol i hyrwyddo'r Wyddeleg yn ardaloedd Gaeltacht y gorllewin ond credai rhai o ymgyrchwyr mwyaf ymroddgar yr Wyddeleg fod defnyddio'r Wyddeleg ers canol y 1900au wedi mynd yn emblematic neu'n weithred wag yn hytrach nag yn real. Ceid diwylliant *cúpla focal* ('ambell air'), sef teimlai'r holl siaradwyr cyhoeddus yn Iwerddon y dylent ddechrau araith gyda rhai geiriau Gwyddeleg cyn dychwelyd i drafod materion difrifol yn Saesneg. Roedd Cynghrair yr Wyddeleg, oedd wedi arddangos cymaint o egni cyn 1914, wedi chwalu gan fod y rhan fwyaf o'r aelodau yn credu fod y fuddugoliaeth wedi'i hennill ac y gellid gadael adfywio'r Wyddeleg yn nwylo'r llywodraeth. Ys dywedodd yr ysgolhaig Gwyddelig Osborn Bergin yn graff yn 1927: "today the people leave the problem to the Government, the Government leaves it to the Department of Education, the Department of Education to the teachers and the teachers to the school-children. Only the very young are unable to shift the burden to someone else's shoulders." O arloesi mudiad adfywio'r iaith yn y gwledydd Celtaidd, bu i'r enghraifft Wyddeleg ar ôl annibyniaeth siomi nid yn unig lawer o Wyddelod, ond hefyd ymgyrchwyr iaith o wledydd Celtaidd eraill a ddaeth yn fwyfwy i ystyried y profiad yn Iwerddon fel gwrth-enchraifft i beidio â'i dilyn, gan gynnwys y statws cynrychioladol i raddau helaeth a roddwyd i'r Wyddeleg gan gyfansoddiad 1937 i fod yn "iaith swyddogol gyntaf".

Er hynny, i fod yn deg mae'n rhaid cyfaddef fod adfyw-wyr yr Wyddeleg wedi cael tasg hynod anodd wrth fynd ati i geisio adfywio iaith a siaredid bryd hynny gan 14% o'r boblogaeth yn unig, a chan isddosbarth mewn ardaloedd anghysbell a ddirmygwyd yn helaeth. Yn sgil yr ymdriniaeth ffafriol gan y wladwriaeth newydd, gwella yn sicr a wnaeth agweddau tuag at yr Wyddeleg, ond yn breifat roedd nifer o Wyddelod yn dal dig yn erbyn yr elfen o orfodaeth yn y system addysg ac yng nghyflogaeth y wladwriaeth. Cynyddu wnaeth yr ymdeimlad hwn ac erbyn y 1940au roedd rhai ysgolion oedd wedi bod yn Wyddeleg eu cyfwng wedi troi'n ddwyieithog neu wedi rhoi'r gorau i'r Wyddeleg. Yn sgil ymlediad addysg uwchradd ym mhobman yn y 1960au, sefydlwyd Mudiad Rhyddid Iaith byrhoedlog i brotestio yn erbyn Gwyddeleg orfodol

mewn ysgolion, ac yn 1973 rhoddwyd diwedd ar y gofyniad Gwyddeleg yn y dystysgrif gadael ysgol uwchradd i gael mynediad i'r gwasanaeth sifil. Yn ystod y cyfnod hwn newidiodd y pwyslais yng ngwaith hybu llywodraethau Iwerddon ar yr Wyddeleg o fod yn ofyniad a orfodwyd ar yr holl ddinasyddion i fod yn ddewis a gynigwyd i unrhyw grŵp o bobl yr oedd o fudd iddynt. Felly, er ei bod yn dal i gael ei hyrwyddo, ni ragwelir ar hyn o bryd gan unrhyw un yn llywodraeth Iwerddon y bydd yr Wyddeleg yn cymryd lle'r Saesneg. Ers i'r llywodraeth roi diwedd ar y polisi o wneud yr Wyddeleg yn orfodol wrth wyddeleiddio siaradwyr Saesneg, mae ymgyrchwyr Gwyddeleg wedi canolbwyntio ar ehangiad cylchoedd chwarae Gwyddeleg (Gw. *naíonraí*) ac ysgolion Gwyddeleg eu hiaith (Gw. *Gaeliaidcoileanna*) a dwyn perswâd ar rieni fod addysg drwy gyfrwng yr Wyddeleg o fantais i hyrwyddo amlieithedd. A hwythau'n ymwybodol o bwysigrwydd cynyddol y cyfryngau, sefydlodd ymgyrchwyr Gwyddeleg yn Conamara orsaf radio answyddogol Gwyddeleg, llwyddodd hyn i gywilyddio'r llywodraeth i sefydlu Raidió na Gaeltacht yn 1972. Ni chafodd ymgyrch debyg i fynnu sianel deledu yr un llwyddiant ac yr oedd yn 1996 cyn y sefydlwyd sianel deledu Wyddeleg (o'r enw Teilifís na Gaeilge (TNG) ar y dechrau, ac wedyn TG4). Mesurau eraill i hyrwyddo'r iaith oedd sefydlu yn 1967 y ganolfan ymchwil Institiúid Teangeolaíochta Éireann (Athrofa Ieithyddol Iwerddon) i gynghori'r llywodraeth ac i ymchwilio i gwestiynau yn ymwneud â pholisi iaith ac ieithyddiaeth gymdeithasol (ond roedd camweinyddu wrth ei rheoli wedi golygu nad oedd yn rhedeg yn effeithiol hyd at 1974, gan i'w chyfarwyddwr cyntaf Colm Ó Huallacháin ymddiswyddo yn 1971). Yn 1978 sefydlwyd Bord na Gaeilge, asiantaeth y llywodraeth, i hyrwyddo'r defnydd o'r Wyddeleg (yn 1999 daeth An Foras Teanga yn ei le, a chylch gwaith hwnnw oedd hyrwyddo'r Wyddeleg yn y Weriniaeth yn ogystal ag yng Ngogledd Iwerddon a dilynai yn glòs wrth sodlau Cytundeb Gwener y Groglith yn 1998 a ddaeth â'r Helyntion yn Ulster i ben). Yn 2003 pasiwyd Deddf Ieithoedd Swyddogol yn y Weriniaeth a chylch gwaith honno oedd hyrwyddo'r Wyddeleg a sicrhau y câi siaradwyr Gwyddeleg eu trin yn gydradd os dymunent gael gwasanaethau mewn Gwyddeleg gan sefydliadau'r wladwriaeth. Mae'r pwyslais y dyddiau hyn ar hyrwyddo a pherswadio ac nid ar orfodaeth.

Er gwaethaf hyrwyddo'r Wyddeleg, nid yw'n gyfrinach nodi fod Gweriniaeth Iwerddon yn wlad Saesneg ei hiaith gan mwyaf, serch hynny yn ôl cyfrifiad 2006 mae 44% (1,860,000) o boblogaeth y Weriniaeth rhyw grap o leiaf ar yr Wyddeleg. Ers sefydlu gwladwriaeth annibynnol Iwerddon, mae ffigyrau cyfrifiad yn gynyddol wedi ystumio gwir nifer y siaradwyr a chuddio'r cwmpo yn nifer y siaradwyr brodorol, fel y gwelir yn rhwydd o'r tabl canlynol:

	1926	1961	1991
amcangyfrifon o siaradwyr brodorol	350K	100K	50K

Mae'r gwahaniaeth ar hyn o bryd rhwng nifer y siaradwyr brodorol a 'siaradwyr y cyfrifiad', yn y drefn honno, rywbeth tebyg i 1% yn erbyn 44% o'r boblogaeth (er y gellid ychwanegu 50,000 arall o siaradwyr sydd wedi dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio'n rheolaidd a hwythau wedi'u lledaenu ar hyd y wlad i gyd gan roi cyfanswm o tua 100,000 (2%) o'r boblogaeth y gellir eu disgrifio yn ddefnyddwyr achlysurol a rhugl). Yn ddiddorol mae nifer siaradwyr y cyfrifiad yn amlwg yn uwch yn siroedd y gorllewin na siroedd y dwyrain, sy'n awgrymu fod y cof o ddefnydd mwy diweddar o'r Wyddeleg yn yr ardaloedd hyn yn elfen 'drefnadaeth' wrth ysgogi pobl i feistrol'r iaith.

Er bod y polisi o hybu'r Wyddeleg ymysg siaradwyr Saesneg y Weriniaeth yn gyffredinol wedi methu â newid yr iaith a ddefnyddir a dim ond wedi llwyddo – gyda rhai eithriadau – i gael cynnydd arwynebol ac ar bapur, mae stori'r Wyddeleg yn yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith (neu Gaeltacht) yn wahanol iawn. Tra bod y duedd o dderbyn yr Wyddeleg yn rhywbeth ffasiynol wedi datblygu yn gynharach mewn amgylchiadau trefol seisnigedig lle roedd yr iaith mor brin nes ei bod yn egsotig yn hytrach nag yn rhywbeth oedd yn codi gwarth, eto parhaodd y daliadau negyddol a dilornus tuag at yr iaith hwyaf yn yr ardaloedd hynny lle siaredid yr iaith, gan effeithio ar hyder y siaradwyr. Serch hynny, yn sgil sefydlu gwladwriaeth annibynnol Iwerddon rhoddwyd gobaith i lawer o siaradwyr brodorol y byddai'r Wyddeleg o'r diwedd yn cael ei pharchu ymysg eu cyd-ddinasyddion, ond serch hynny ni wireddwyd y gobaith hwn a dychwelodd siom ac anobaith yn fuan. Nid oedd ewyllys dda at yr iaith ymysg eu cyd-Wyddelod Saesneg eu hiaith yn ymestyn i ganiatáu i siaradwyr brodorol gael y manteision gyrfa ac ariannol oedd yn ofynnol i hyrwyddo'r Wyddeleg yn effeithiol heb niweidio ar eu cyfleoedd eu hunain. A hwythau'n breswylwyr ardaloedd gwledig anghysbell a dibwys a heb gynrychiolaeth wleidyddol ar wahân (nid oes llywodraeth leol etholedig sy'n is na lefel y sir), roedd y Gaeltacht yn wastad ar drugaredd siaradwyr Saesneg nad oedd yn debygol o gydymdeimlo â chyfyng-gyngor y siaradwyr Gwyddeleg. Roedd y gefnogaeth i'r Gaeltacht gan y llywodraeth ganolog yn aml yn bitw ond yr oedd yn cynnwys peth cymhorthdal economaidd a chymorth marchnata yn 1925 a grant blyneddol o £2 yn 1934 i blant a siaradai'r Wyddeleg. Roedd yr ardaloedd hyn yn parhau i gael eu cysylltu â thlodi. Yn achlysurol, byddai cythrwfl gwleidyddol yn ysgwyd yr hyn a gredid oedd tynged amlwg y Gaeltachts: yn y 1930au llwyddodd Muinntir na Gaedhealtachta, plaid amaethyddol o'r chwith, i gael De Valera i roi tir yn nwyrain Iwerddon i ffermwyr anghenus, Gwyddeleg eu hiaith. Rhoddodd y llywodraeth statws Gaeltach yn ddiweddarach i drefedigaethau'r Meath a sefydlwyd yn 1935 a 1940. Arweiniodd pryder ynghylch dirywiad yr Wyddeleg yn y Gaeltacht yn 1956 at sefydlu gweinidogaeth i'r Gaeltacht a chael diffiniad cliriach o ffiniau'r Gaeltacht. Yn sgil pryder

cynyddol ynghylch pa mor effeithiol oedd y weinidogaeth yn yr hyn a gyflawnai dros yr Wyddeleg, ffynnodd nifer o grwpiau hawliau sifil Gaeltacht yn niwedd y 1960au a'r 1970au, un o'u llwyddiannau pwysicaf oedd sicrhau sefydlu *Údarás na Gaeltacht* ('Awdurdod y Gaeltacht') yn 1979 oedd â chynrychiolwyr Gaeltacht etholedig a symud swyddfeydd y weinidogaeth i Conamara. Nid oedd manylion ieithyddiaeth gymdeithasol eto wedi cael eu hastudio yn y 1920au ond gwelir efallai pa mor esgeulus oedd awdurdodau annibynnol Iwerddon gan fod angen Deddf Ieithoedd Swydddogol 2003 i wahardd rhoi enwau lleoedd yn ddwyieithog yn y Gaeltacht gan ganiatáu'r fersiwn Wyddeleg yn unig. Er gwaethaf llawer o welliannau yn statws ymddangosiadol yr Wyddeleg a chynnydd economaidd, ofnir ers y 1960au bod llithriad ieithyddol yn digwydd ymhlith y cenedlaethau iau, hyd yn oed yn y cryfaf o'r Gaeltachtau.

Gwahanol iawn i'w hanes yn y Weriniaeth yw'r sefyllfa o ran adfywio'r Wyddeleg yn chwe sir y gogledd (Gogledd Iwerddon neu Ulster ar lafar) a hwythau wedi torri cyswllt â gwladwriaeth Iwerddon oedd ar fin mynd yn annibynnol yn 1921. Gan fod yma fwyafrif o Brotestaniaid mewnosodedig nad oedd yn uniaethu o gwbl â phethau Gwyddelig, ond a ystyriai eu hunain yn Brydeinwyr, roedd yn rhaid i'r lleiafrif mawr o Gatholigion a ystyriai eu hunain yn Wyddelig ymgodymu â sefyllfa anodd o geisio cael eu holl elfennau diwylliannol a gwleidyddol o'r Weriniaeth. Câl codi'r faner drilliw ei drin fel gweithred wrthryfelgar gan lywodraeth Ulster, felly hefyd codi arwydd Gwyddeleg, hyd yn oed i enw lle. Er i'r Wyddeleg oroesi mewn rhai pocedi (Sperrins, Glens o Antrim, Ynys Rathlin) ystyrir yr iaith yn un "estron" ac nid oedd lle iddi yn system addysg y wlad (er y gwnaed iawn am hyn gan ysgolion Catholig). Dioddefodd y lleiafrif Pabyddol sawl agwedd ar wahaniaethu yn eu herbyn ond ffrwydrad yr Helyntion Sectyddol (1969-98) fu'n sbardun i ymgyrchwyr iaith yn Belfast i sefydlu ardal Wyddeleg ei hiaith yng ngorllewin Belfast o gwmpas stryd ac ysgol Gwyddeleg eu cyfrwng yn 1969. Mae'r "Gaeltacht" Anderstown yn enghraifft arloesol o adfywiad yr Wyddeleg fel iaith gymunedol ond hyd yn oed os nad yw hi eto wedi ennill cryfder Gaeltacht traddodiadol, mae wedi bod yn ysbrydoliaeth ac yn ganolbwynt i weithredu dros yr iaith yn Belfast, yn Ulster a hyd yn oed yn y Wladwriaeth (megis cyhoeddi *Lá* ('Dydd') sef y papur newydd dyddiol cyntaf erioed yn yr Wyddeleg).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- CROWLEY, Tony. 2000. *The Politics of Language in Ireland, 1366–1922: a Sourcebook*. (London: Routledge).
- DE FRÉINE, Séamus. 1965. *The Great Silence*. (Cork: Mercier).
- FOX, Robin. 1995. *The Tory Islanders: a People of the Celtic Fringe*. (Notre Dame IND: Notre Dame University Press). (arg 1af 1978).
- HINDLEY, Reg. 1990. *The Death of the Irish Language*. (London: Routledge).
- MAGUIRE, Gabrielle. 1991. *Our Own Language: an Irish Initiative*. (Clevedon: Multilingual Matters).

Ó HUALLACHÁIN, Colm. 1994. *The Irish and Irish: a Sociolinguistic Analysis of the Relationship between a People and their Language*. (Dublin: Irish Franciscan Provincial Office).